Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2022 Rhif 806 (Cy. 182)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2022

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhan 1 o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol fel y'i nodir yn yr Atodlen i Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 ("y Gorchymyn") er mwyn ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) at y rhestr o awdurdodau perthnasol. Effaith y diwygiad fyddai gwneud y Cod Ymddygiad Enghreifftiol gorfodol yn gymwys i aelodau cyd-bwyllgorau corfforedig.

Mae'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn llywodraethu ymddygiad aelodau awdurdodau perthnasol yng Nghymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig a gorchmynion a rheoliadau cysylltiedig. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol pan wnaed y rheoliadau sefydlu hynny a dibynnir arno at ddiben y Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2022 Rhif 806 (Cy. 182)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Gorffennaf 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *15 Gorffennaf 2022* |
| *Yn dod i rym* | *5 Awst 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 50(2) a (3)(**1**) a 105(2)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**2**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Yn unol ag adran 49(5) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, cynrychiolwyr awdurdodau perthnasol, a'r personau eraill hynny yr oeddent yn ystyried eu bod yn briodol.

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2022.

(**1**) Diwygiwyd adran 50 gan p. 20 Atodlen 25(5) para. 1 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (mae'r diwygiad yn cael effaith fel O.S. 2012/1463 yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol, darpariaethau darfodol a darpariaethau arbed a bennir yn O.S. 2012/1463 erthygl 7(3) a (4)). Trosglwyddwyd y pwerau a roddwyd gan adran 50(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Lywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 2000 p. 22.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Awst 2022.

**Diwygio'r Atodlen i Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008**

**2.** Yn y diffiniad o "awdurdod perthnasol" yn Rhan 1 (*Dehongli*) o'r Atodlen i Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008(**1**) ar ôl "cyngor cymuned" mewnosoder—

"(ca) cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir gan reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1)(**2**),".

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
13 Gorffennaf 2022

(**1**) O.S. 2008/788.
(**2**) dsc 1.